YSTADEGAU, DOGFENNU

# Trosolwg o'r farchnad lafur: Mehefin 2025 (canlyniadau pennawd)

Data misol ar gyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 10 Mehefin 2025

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 10 Mehefin 2025

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68914#173961)

**Enillion misol gweithwyr cyflogedig o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68914#173963)

**Prif ddangosyddion y farchnad lafur, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2025** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68914#173965)

**Gwybodaeth bellach** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68914#173967)

**Manylion cyswllt** (https://www.llyw.cymru/pdf-optimised/node/68914#173969)

# Cyflwyniad


Mae'r pennawd hwn yn rhoi crynodeb o'r ystadegau allweddol diweddaraf sy'n ymwneud â marchnad lafur Cymru, ac mae'n cynnwys ystadegau arbrofol Gwybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill gan adran Gyllid a Thollau EF (CThEF) ac o'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS).

# Enillion misol gweithwyr cyflogedig o Wybodaeth Amser Real Talu wrth Ennill

Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) a Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) yn cyhoeddi data ar gyfer Cymru am weithwyr sydd ar gyflogres, tâl cymedrig, tâl yn ei grynswth ac amcangyfrifon un mis ar gyfer tâl canolrifol.

## Gweithwyr cyflogedig

### Ffigur 1: Gweithwyr cyflogedig, Cymru, mis Mai 2020 i fis Mai 2025



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart llinell sy'n dangos fod tuedd yn y nifer o weithwyr cyflogedig wedi bod yn weddol sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn cynnydd cyson ers 2021.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o PAYE RTI, SYG a CThEF.

Mae amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Mai 2025 yn dangos bod nifer y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru wedi gostwng o 5,300 (0.4%) dros y mis i 1.31 miliwn.

Ar lefel y Deyrnas Unedig (DU), dangosodd amcangyfrifon cynnar ar gyfer mis Mai 2025 ostyngiad misol o 109,100 (0.4%).


Mae dadansoddiadau manwl eraill o **weithwyr cyflogedig gan gynnwys yn ôl awdurdod lleol, yn ôl oedran ac yn ôl sector gan y SYG** (https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/earningsandemploymentfrompayasyouearnrealtimeinformationuk/previousReleases).

# Prif ddangosyddion y farchnad lafur, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2025

**Mae cyfyngau hyder ar gyfer y prif gyfraddau marchnad lafur ar gael ar wefan y SYG** (https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/samplingvariabilityandrevisionssummaryforregionallabourmarketstatisticss02). Mae'r data diweddaraf yn dangos mai’r unig newid ystadegol arwyddocaol ar gyfer prif ddangosyddion y farchnad lafur yng Nghymru yn y tri mis hyd at fis Ebrill 2025 oedd y newid blynyddol yn y gyfradd anweithgarwch economaidd. Nid oedd yr holl newidiadau chwarterol a blynyddol eraill ar gyfer prif ddangosyddion y farchnad lafur yn ystadegol arwyddocaol sy'n awgrymu bod y rhain yn annhebygol o adlewyrchu newid gwirioneddol yn y data.

## Cyfradd cyflogaeth

### Ffigur 2: Cyfradd cyflogaeth, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2015 i'r 3 mis hyd at fis Ebrill 2025




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd cyflogaeth yn y DU yn gyffredinol yn uwch nag yng Nghymru dros y 10 blynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r LFS

### Cymru


Roedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru yn 72.2%. Mae hyn i fyny 2.3 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 3.2 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

### DU

Roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer y DU yn 75.1%. Mae hyn i fyny 0.1 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 0.7 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

## Cyfradd diweithdra

### Ffigur 3: Cyfradd diweithdra, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2015 i’r 3 mis hyd at fis Ebrill 2025




Disgrifiad o Ffigur 3: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd diweithdra wedi gostwng ar y cyfan yng Nghymru ac yn y DU dros y 10 blynedd diwethaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o’r LFS

#### Cymru


Roedd y gyfradd diweithdra yng Nghymru yn 4.7%. Mae hyn i lawr 0.7 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 1.2 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

#### DU

Roedd cyfradd diweithdra y DU yn 4.6%. Mae hyn i fyny 0.2 pwynt canran ar y chwarter ac i fyny 0.2 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

## Cyfradd anweithgarwch economaidd

### Ffigur 4: Cyfradd anweithgarwch economaidd, y 3 mis hyd at fis Ebrill 2015 i'r 3 mis hyd at fis Ebrill 2025




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart llinell sy'n dangos bod y gyfradd anweithgarwch economaidd wedi gostwng yn gyffredinol yn y DU dros y 10 blynedd diwethaf ond mae wedi cynyddu ar y cyfan ers y misoedd cynnar yn 2020. Yng Nghymru, mae'r gyfradd wedi amrywio dros y cyfnod hwn ond yn gyffredinol mae'n parhau i fod yn uwch na chyfradd y DU.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r LFS

#### Cymru

Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 24.2%. Mae hyn i lawr 1.8 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 4.2 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

#### DU

Roedd y gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer y DU yn 21.3%. Mae hyn i

lawr 0.2 pwynt canran ar y chwarter ac i lawr 0.9 pwynt canran ers yr un cyfnod y flwyddyn ynghynt.

## Gwybodaeth bellach

Mae'r **SYG wedi cyhoeddi amcangyfrifon LFS wedi'u hail-bwysoli ar gyfer Cymru ym mis Rhagfyr** (https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/impactofreweightingonlabourforcesurveykeyindicators/december2024) am y cyfnod o Ionawr i Fawrth 2019, sydd wedi achosi newid sylweddol yn y data. Manylir ar effaith lawn yr ail-bwysoliad hwn yn yr erthygl 'Effaith ail-bwysoli ar ddangosyddion allweddol Arolwg o'r Llafurlu yng Nghymru – Rhagfyr 2024', sydd ar gael ochr yn ochr â'r **Trosolwg o'r Farchnad Lafur Rhagfyr 2024** (/trosolwg-or-farchnad-lafur-rhagfyr-2024).

Mae'r SYG wedi nodi bod heriau o ran cynnal cyfraddau ymateb ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu yn parhau i effeithio ar ansawdd data, er gwaethaf yr **ail-bwysoliad o'r amcangyfrifon ym mis Rhagfyr 2024 (SYG)** (https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/impactofreweightingonlabourforcesurveykeyindicators/december2024?_gl=1*1w8zjik*_ga*MTMyNTgxOTA1OC4xNzM0MzQ5NjU2*_ga_W804VY6YKS*MTczNDM0OTY1NS4xLjAuMTczNDM0OTY1NS42MC4wLjA.*_ga_80DKNRDN15*MTczNDM0OTY1NS4xLjAuMTczNDM0OTY1NS4wLjAuMA..). Bydd ystadegau'r farchnad lafur sy'n seiliedig ar Arolwg o'r Llafurlu yn parhau i gael eu labelu fel **ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu (Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau)** (https://osr.statisticsauthority.gov.uk/policies/official-statistics-policies/official-statistics-in-development/) nes bydd adolygiad pellach ac rydym yn parhau i argymell gofal wrth ddehongli'r data hwn.

Byddem yn argymell defnyddio data'r LFS ochr yn ochr â'r tueddiadau mewn mesurau eraill yn y farchnad lafur, yn enwedig Swyddi'r Gweithlu (mesur chwarterol o swyddi), nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra) a'r data RTI gan CThEF (nifer y gweithwyr ar y gyflogres) i gael

darlun cliriach o’r farchnad lafur yng Nghymru.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Joe Davies
E-bost: **ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru** (mailto:ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.